



Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Headteacher
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 ☎ 01443 219596
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk

Ebrill, 2014

CRYNODEB O GYNNYDD (Ebrill) - Blwyddyn 7, 8 a 9

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Erbyn diwedd y tymor hwn fe welwch grynoded o gynnydd eich plentyn wedi ei roi yn y rhan "Gosod Targedau" o'i G/Chynllun Gwaith Personol. Pwrpas y crynodeb hwn yw rhoi braslun i chi o ymdrech a chyrhaeddiad presennol eich plentyn yn ei holl bynciau. Yn ogystal, fe ddangosir targed uchelgeisiol CA3 (erbyn diwedd Bl 9) sy'n dynodi'r targed personol diweddaraf a osodwyd gan yr ysgol trwy ystyried perfformiad blaenorol, amcangyfrifon o ffynonellau data ac wrth gwrs barn broffesiynol. Mae'r golofn "Ar darged?" yn dangos y cynnydd tuag at y targed uchelgeisiol ar sail y perfformiad presennol. Fe fydd yr adroddiad llawn (i'w gyflwyno yn hwyrach yn y flwyddyn) yn un cynhwysfawr ac yn cynnwys manylion am gryfderau, datblygiad yn ystod y flwyddyn a thargedau er mwyn gwneud cynnydd pellach.

Mae'r rhif ar gyfer cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 3 (flynyddoedd 7, 8 a 9) yn adlewyrchu'r perfformiad cyflawn Cwricwlwm Cenedlaethol y mae eich plentyn wedi cyrraedd. Defnyddiwn (+ a -) fel ffordd o ddangos cynnydd disgybl trwy'r lefelau Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r cwrs "Meddwl Dysgu Llwyddo" Bl 7 yn gyfres o brofiadau dysgu sy'n datblygu'r sgiliau o Gyfathrebu, Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad, Cymhwyso Rhif, Datrys Problemau a Gweithio Gydag Eraill. Nid yw'n bosib gosod lefel cyrhaeddiad ar gyfer y cwrs hwn.

Os ydych am drafod cynnydd eich plentyn yn unrhyw faes neu am drafod cynnwys y Cynllun Dysgu Unigol ymhellach, yna cysylltwch â'r Arweinydd Cynnydd. Yn ogystal, fe fydd cyfle i rieni Blwyddyn 7 trafod cynnydd gyda'r athrawon pwnc yn y noson rhieni.

Dyddiadau Pwysig		
Blwyddyn	Dyddiad Noson Rieni (15:30 – 17:30)	Dyddiad Cyflwyno Adroddiad Llawn
7	06-05-14	18-07-14
8	-	11-07-14
9	-	11-07-14

Yr eiddoch yn gywir,

G. Lewis,
Dirprwy Bennaeth

April, 2014